

Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

Y Cynghorydd A R Berrow

Ward: Trelales, Merthyr Mawr, Bryntirion a Broadlands

Plaid: Annibynnol

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2023. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli **Trelales, Merthyr Mawr, Bryntirion a Broadlands** ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor yn ystod eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y pwyllgorau rwy'n eistedd arnynt drwy ddefnyddio'r ddolen hon y [Cyng. Antony Berrow](#). Rwyf wedi mynychu dros 40 o gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol y cyngor ar-lein ac yn bersonol.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu dros 50 o sesiynau hyfforddi a sesiynau briffio sydd i gyd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal. Rwyf hefyd wedi ymgymryd â modiwlau hyfforddi ar-lein.

Rwyf wedi codi 55 o atgyfeiriadau yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill sy'n deillio o etholwyr lleol a materion yr wyf wedi'u nodi. Mae hyn yn ogystal â rhoi gwybod am nifer o faterion eraill gan gynnwys tyllau yn y ffordd, coed, palmentydd, marciau ffordd. Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion.

Rwyf hefyd yn aelod etholedig o Gyngor Cymuned Laleston ac wedi mynychu sawl cyfarfod ar y cyd gydag aelodau a swyddogion y ddau gyngor.

Gweithgarwch Etholaeth

Mae Cyngor Cymuned Trelales yn rheoli dau adeilad cymunedol. Ym Mryntirion rydym ni'n cynnal Pantri yr wyf yn ymwneud yn fawr ag ef, mae hwn hefyd wedi dod yn ganolbwynt cynnes yn ddiweddar ac rwy'n mynychu pryd bynnag y bo modd. Mae amrywiaeth o sefydliadau'n defnyddio'r ddau adeilad ac rwy'n cwrdd â'r rhain a'r defnyddwyr yn rheolaidd. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd am y cae chwarae ym Mryntirion a'r holl barciau chwarae yn yr etholaeth. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Rwyf hefyd wedi cwrdd â swyddogion BCBC ynghylch materion yn ymwneud â chynnal a chadw coed a gwrychoedd yn yr etholaeth a swyddog llwybrau troed BCBCs.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n rhan o'r pwyllgor lleol sy'n trefnu'r Diwrnod Hwyl a gynhelir yn Broadlands bob blwyddyn ar gyfer y gymuned. Rwyf hefyd yn ymwneud â'r Arddangosfa Tân Gwylt flynyddol ym Mryntirion. Rwy'n eistedd ar Ymddiriedolaeth Blandy yn Nhrelales. Rwy'n cefnogi pob swyddogaeth gymunedol leol os wyf yn rhydd i wneud hynny.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwy'n aelod gweithgar o sawl sefydliad elusennol lleol mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio yn y gymuned yr wyf yn ei chynrychioli. Rydym ni'n gweithio'n galed i godi arian a'i wario'n lleol, eleni o fewn ysgolion yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Rydym ni wedi bod yn brysur yn cyfrannu a phlannu coed mewn ysgolion a pharciau lleol fel rhan o fenter Canopi Gwyrdd y Frenhines.

Y Cyngorydd A R Berrow

Dyddiad: 11 Mehefin 2023